Hawliad Cyflafareddu - nodiadau i'r hawlydd

Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn cyn dechrau llenwi'r ffurflen hawliad.

Gellir defnyddio'r ffurflen hawliad cyflafareddu i gychwyn achos a gwneud cais mewn achos cyfredol. Pan wneir cais mewn achos cyfredol does dim angen ffurflen cydnabyddiad cyflwyno a dylid dileu'r cyfeiriadau at ffurflen cydnabyddiad cyflwyno yn y Nodiadau i'r Diffynnydd.

Ac eithrio:

- ceisiadau dan adran 9 Deddf Cyflafareddu 1996; a
- rhai achosion y gellir eu cychwyn yn unig yn yr Uchel Lys neu mewn llys sirol yn unig - gweler Gorchymyn Uchel Lys a Llysoedd Sirol (Dyrannu Achosion Cyflafareddu) 1996, gellir cychwyn achosion cyflafareddu yn y llysoedd a nodir yn y tabl gyferbyn.

Llys	Rhestr
Y Cofrestrfa'r Morlys a Masnach yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Llundain	Masnach
Cofrestrfa'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith, St Dunstan's House, Llundain	LlTA
Cofrestrfa Ddosbarth yr Uchel Lys (*lle mae Llys Mercantilaidd wedi'i sefydlu*)	Mercantilaidd
Cofrestrfa Ddosbarth yr Uchel Lys *(lle mae'r ffurflen Hawlio wedi'i marcio 'Llys Technoleg ac Adeiladwaith' yn y gornel uchaf ar y dde)*	LlTA
Llys Sirol Canol Llundain	Mercantilaidd

Pennawd

Rhaid i chi lenwi pennawd y ffurflen hawliad gydag.

- enw'r llys (Uchel Lys neu lys sirol); ac
- os y'i cychwynnwyd mewn Cofrestrfa Ddosbarth, enw'r Gofrestrfa Ddosbarth

Manylion yr hawlydd a'r diffynnydd

Rhaid i chi ddarparu eich enw a'ch cyfeiriad llawn chi, gan gynnwys y côd post ac enwau a chyfeiriadau llawn y diffynyddion sydd i'w cyflwyno gyda'r hawliad. Os yw'r hawliad i'w gyflwyno i ddiffynnydd y tu allan i Gymru a Lloegr, efallai y bydd angen caniatâd y llys *(gweler Rheol 62.5)*.

Arbitration Claim - notes for the claimant

Please read these guidance notes before you begin completing the claim form

The arbitration claim form may be used to start proceedings and make an application in existing proceedings. Where an application is being made in existing proceedings, an acknowledgment of service form is not required and the references to an acknowledgment of service form in the Notes for the Defendant should be deleted.

With the exception of:

- applications under section 9 of the Arbitration Act 1996; and
- certain proceedings which may be started only in the High Court or only in a county court - see High Court and County Courts (Allocation of Arbitration Proceedings) Order 1996, arbitration proceedings may be started in the courts set out in the table opposite.

Court	List
Admiralty and Commercial Registry at the Royal Courts of Justice, London	Commercial
Technology and Construction Court Registry, St Dunstan's House, London	TCC
District Registry of the High Court *(where Mercantile court established)*	Mercantile
District Registry of the High Court *(where the Claim form marked 'Technology and Construction Court' in top right hand corner)*	TCC
Central London County Court	Mercantile

Heading

You must fill in the heading of the claim form with:

- the name of the court (High Court or county court); and
- if issued in a District Registry, the name of the District Registry

Claimant and defendant details

You must provide your full name and address, including postcode and the full names and addresses of the defendants to be served. If a defendant is to be served outside England and Wales, the court's permission may need to be sought *(see Rule 62.5)*.

Yr iawn a hawlir ac ar ba sail y gwneir yr hawliad

Mae'n rhaid i chi:

- gynnwys datganiad cryno o'r
  - iawn a hawlir; ac
  - unrhyw gwestiynau yr ydych am gael penderfyniad gan y llys arnynt;
- rhoi manylion unrhyw ddyfarniad cyflafareddu yr ydych yn eu herio, gan nodi pa ran neu rannau o'r dyfarniad sy'n cael eu herio a sail yr her;
- dangos bod unrhyw ofynion statudol wedi'u bodloni;
- nodi o dan ba adran o'r Ddeddf y gwneir yr hawliad.

Atebyddion

- os ar rybudd, rhowch enwau a chyfeiriadau'r bobl y bydd y ffurflen hawliad cyflafareddu yn cael ei chyflwyno iddynt gan nodi eu rôl yn y cyflafareddu ac a ydynt yn ddiffynyddion; neu
- nodwch fod yr hawliad yn cael ei wneud heb rybudd dan adran 44(3) Deddf 1966, a'r sail y dibynnir arni.

Ffurflen cydnabyddiad cyflwyno

Rhaid cynnwys ffurflen cydnabyddiad cyflwyno N15 gyda'r ffurflen hawliad cyflafareddu. Dylech lenwi'r pennawd ar y ffurflen hon. Os yw'r ffurflen hawliad i'w chyflwyno y tu allan i'r awdurdodaeth, rhaid i chi newid y Nodiadau i'r Diffynnydd i roi'r amser o fewn yr hyn y bydd yn rhaid i'r diffynnydd gydnabod y cyflwyno a ffeilio tystiolaeth. Mae'r ffurflen hawliad yn ddilys am fis yn dechrau ar ddyddiad y cyflwyno neu, os oes angen ei chyflwyno y tu allan i'r awdurdodaeth, am gyfnod y bydd y llys yn ei bennu

Cyfeiriad ar gyfer dogfennau

Rhaid i chi ddarparu cyfeiriad ar gyfer y cyflwyno yng Nghymru a Lloegr lle dylid anfon dogfennau iddo. Rhaid i'r cyfeiriad hwnnw fod naill ai yn gyfeiriad busnes eich twrnai, eich cyfeiriad preswyl chi neu eich cyfeiriad busnes chi.

Datganiad Gwirionedd

Rhaid i chi neu'ch twrnai lofnodi'r datganiad gwirionedd. Lle nad yw'r datganiad gwirionedd wedi'i lofnodi gan y twrnai a bod yr hawlydd yn gorfforaeth neu gwmni cofrestredig, rhaid i'r datganiad gwirionedd gael ei lofnodi naill ai gan gyfarwyddwr, y trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall yn y cwmni ac (yn achos corfforaeth) y maer, y cadeirydd, y llywydd neu glerc y dref.

Gallwch ddibynnu ar y materion a nodir yn y ffurflen hawlio fel tystiolaeth dim ond os dilysir y ffurflen hawlio gan ddatganiad gwirionedd. Gallwch hefyd ffeilio affidafid neu ddatganiad tyst i gefnogi'r hawliad cyflafareddu, y mae'n rhaid ei gyflwyno gyda'r ffurflen hawlio.

Remedy claimed and grounds on which claim is made

You must:

- include a concise statement of
  - the remedy claimed; and
  - any questions on which you seek the decision of the court;
- give details of any arbitration award which you challenge, identifying which part or parts of the award are challenged and the grounds for the challenge;
- show that any statutory requirements have been met;
- specify under which section of the Act the claim is made;

Respondents

- if on notice, give the names and addresses of the persons on whom the arbitration claim form is to be served, stating their role in the arbitration and whether they are defendants; or
- state that the claim is made without notice under section 44(3) of the 1966 Act, and the grounds relied on.

Acknowledgment of service form

An acknowledgment of service form N15 must accompany the arbitration claim form. You should complete the heading on this form. Where the claim form is to be served out of the jurisdiction, you must amend the Notes for the Defendant to give the time within which the defendant must acknowledge service and file evidence. The claim form is valid for one month beginning with the date of its issue or, where required to be served out of the jurisdiction, for such period as the court may fix.

Address for documents

You must provide an address for service within England and Wales to which documents should be sent. That address must be either the business address of your solicitor, or your residential or business address.

Statement of Truth

The statement of truth must be signed by you or by your solicitor. Where the statement of truth is not signed by the solicitor and the claimant is a registered company or corporation, the statement of truth must be signed by either a director, the treasurer, secretary, chief executive, manager or other officer of the company and (in the case of a corporation) the mayor, chairman, president or town clerk.

You may rely on the matters set out in the claim form as evidence only if the claim form is verified by a statement of truth. You may also file an affidavit or witness statement in support of the arbitration claim, which must be served with the claim form.